Manylion cyswllt Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr:
Gwefan:pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-dyfarniadau-myfyrwyr/
E-bost: abm.sas@wales.nhs.uk
Ffôn: 029 2090 5380
Twitter: @NWSSPSAS

Myfyrwyr Meddygol a Deintyddol - Cwestiynau Cyffredin

Sut ydw i'n gwneud cais am dreuliau teithio a llety?

Bydd angen i chi lawrlwytho Ffurflen Hawlio Treuliau yn sgil Lleoliad Ymarfer ar ein gwefan. Bydd angen i chi gwblhau'r ffurflen a mynd â hi at y Swyddog Lleoliadau Ymarfer yn eich prifysgol, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol a'ch taflen glawr myfyriwr.

Bydd eich prifysgol wedyn yn gyfrifol am wirio'r dystiolaeth, gan stampio ac arwyddo'r ffurflen hawliadau a'i chyflwyno i'r Tîm Sganio Dogfennau ym Mhont-y-pŵl. Yna, bydd y tîm yn ei hanfon i ni ar gyfer ei phrosesu. Y brifysgol sy'n penderfynu a yw'r costau teithio yn berthnasol ac felly bydd angen ei hawdurdodiad arnom cyn i ni wneud unrhyw daliadau.

Rhaid i chi sicrhau eich bod yn darparu eich taflen glawr ynghyd â'ch ffurflen. Fel arall, byddwn yn dychwelyd y ffurflen i'ch prifysgol, a bydd hyn yn arwain yn ei dro at oedi wrth wneud unrhyw daliadau dyledus. Dylech sicrhau hefyd bod eich cyfeirnod BOSS (System Cymorth Ar Lein ar gyfer Bwrsariaethau) wedi ei nodi'n glir yn y blwch a ddarperir. Ni fyddwch yn gallu hawlio costau lleoliad cyn eich lleoliad.

Oes terfyn amser ar gyfer hawlio treuliau teithio a llety?

Rhaid anfon eich Ffurflen Hawlio Treuliau yn sgil Lleoliad Ymarfer o fewn 3 mis o ddiwrnod olaf pob lleoliad er mwyn iddi gael ei hystyried.

Fydda i'n cael ad-daliadau am leoliad dewisol?

Os yw eich lleoliad dewisol yn y DU, byddwn yn gallu ad-dalu'r costau teithio. Fodd bynnag, os yw'r lleoliad dewisol y tu allan i'r DU, ni fyddwn ond yn gallu ad-dalu eich costau teithio i'r maes awyr yn y DU ac oddi yno.

Fydda i'n gallu hawlio costau nwyddau traul a chostau brechu ar gyfer lleoliad dewisol?

Na, ni fyddwch yn gallu hawlio costau nwyddau traul a chostau brechu ar gyfer lleoliad dewisol.

Fydda i'n gallu hawlio treuliau am fynd â theithiwr i leoliad?

Ni fyddwch ond yn gallu gwneud hawliad am deithiwr sydd hefyd yn cael ei ariannu gan GIG Cymru. Ni fyddwch yn gallu gwneud hawliad am deithiwr sy'n cael ei ariannu gan yr NHS yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon.

Pryd fydd fy Nhreuliau yn sgil Lleoliad Ymarfer yn cael eu had-dalu?

Bydd hawliadau Treuliau yn sgil Lleoliad Ymarfer yn cael eu prosesu o fewn 20 diwrnod gwaith o'r adeg y byddwn yn derbyn y ffurflen wedi'i sganio gan y Tîm Sganio Dogfennau. Unwaith y bydd yr hawliad wedi cael ei brosesu, byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau'r swm dyledus ac yn cadarnhau y bydd Prifysgol Caerdydd yn gwneud y taliad i'ch cyfrif o fewn 4 wythnos o ddyddiad yr e-bost.